Cefnogi Busnesau yng Ngwynedd
Supporting Businesses in Gwynedd

CYNGOR GWYNEDD COUNCIL

# Bwletin Gwasanaeth Cefnogi Busnes Gwynedd 24.05.2022

- Mae hwn yn fersiwn Gymraeg o ddau e-bost sydd yn cael eu gyrru allan, mae fersiwn Saesneg yn dilyn – gellir gweld holl fwletinau sydd wedi eu gyrru ar: https://www.gwynedd.llyw.cymru/busnescovid19

- This is the Welsh version of two emails sent out, the English version will follow – all sent bulletins can be accessed on: https://www.gwynedd.llyw.cymru/businesscovid19

# DIGWYDDIAD: Expo Sgiliau Digidol & Gyrfaeoedd 7 Mehefin 2022

Bydd Partneriaeth Sgiliau Rhanbarthol Gogledd Cymru ac M-SParc yn cynnal digwyddiad Expo Sgiliau Digidol & Gyrfaeoedd ar 7 Mehefin 2022 (12:30pm-5:00pm). Bydd cyfle i gyflogwyr yn y sector ddigidol rwydweithio â phobl ifanc gyda sgiliau digidol a chynllunio sy'n chwilio am waith. Am fwy o wybodaeth, ac i gofrestru, ewch i:

https://bit.ly/39KRum3

Nodyn i'ch atgoffa bod y Bartneriaeth Sgiliau yn dal i chwilio am farn pob busnes drwy eu Harolwg Cyflogwyr 2022 – rhannwch eich barn cyn 31 Mai drwy fynd i:

https://www.surveymonkey.co.uk/r/2ZVHFVJ

## TRETH: Gwiriwch a yw llythyr rydych wedi'i dderbyn gan CThEM yn ddilys

Byddwch yn wyliadwrus o sgamiau – mae rhestr wirio o lythyrau diweddar gan CThEM bellach ar gael ar:

https://bit.ly/3sTarK2

## ARIANNU: Sefydliad Teulu Ashley

Mae Sefydliad Teulu Ashley yn cynnig grantiau o dan £10,000 i gefnogi ystod eang o brosiectau celfyddydau, cymunedol a lles cymdeithasol, gyda diddordeb arbennig mewn cefnogi cymunedau gwledig yng Nghymru. Bydd y cylch ariannu nesaf ym mis Gorffennaf 2022. Am fwy o wybodaeth, ewch i:

https://www.ashleyfamilyfoundation.org.uk/

## DIGWYDDIAD: FSB Cynhadledd Busnesau Bach Gogledd Cymru 14 Gorffennaf 2022

Bellach, mae'n bosib archebu ar gyfer Cynhadledd Busnesau Bach Gogledd Cymru FSB a gynhelir yn Hilton Garden Inn Snowdonia, Dolgarrog, ar 14 Gorffennaf 2022. Bydd cyfle i siarad â sefydliadau cymorth busnes a chlywed gan y prif siaradwr, Sid Madge o meee.global, am sut y gall brandio a marchnata proffesiynol helpu eich busnes. Am fwy o wybodaeth, ac i archebu lle ar gyfer y digwyddiad rhad ac am ddim hwn, ewch i:

https://www.fsb.org.uk/event-calendar/fsb-nwsbc22.html

# CYFLOGAETH: Cyfraddau'r Cyflog Byw Cenedlaethol a'r Isafswm Cyflog Cenedlaethol ar gyfer 2022

O 1 Ebrill 2022 mae cyfraddau y Cyflog Byw Cenedlaethol a'r Isafswm Cyflog Cenedlaethol wedi codi. Mae gwybodaeth am y cyfraddau newydd ar gael ar:

https://www.gov.uk/cyfraddau-isafswm-cyflog-cenedlaethol

# NEWYDDION: Cronfa Pethau Pwysig Llywodraeth Cymru

Mae Cyngor Gwynedd wedi derbyn cyllid ar gyfer dau brosiect gan Gronfa Pethau Pwysig Llywodraeth Cymru i uwchraddio cyfleusterau a chynyddu'r budd i'r economi leol o dwristiaeth. Bydd Parc Padarn, yn Llanberis, yn cael ei uwchraddio'n sylweddol i gynnwys Pwyntiau EV, gosod rheseli beiciau a biniau ailgylchu ac ail-wynebu'r maes parcio. Bydd prosiect Aros-fan yn uwchraddio asedau fel meysydd parcio cyhoeddus mewn 6 cyrchfan ar draws Gwynedd, o fewn pellter cerdded i drefi allweddol, i ddatblygu rhwydwaith o leoliadau erbyn gwanwyn 2023 a fydd yn creu darpariaeth gyfreithlon ar gyfer parcio 'dros nos' a chysgu drwy gydol y flwyddyn ar gyfer cartrefi modur yn y sir. I gael rhagor o wybodaeth am hyn, ewch i:

https://llyw.cymru/hwb-o-29-miliwn-i-y-pethau-pwysig-cymru-y-pethau-bach-syn-gwneud-gwahaniaeth-mawr-i-brofiad-gwyliau

# ARIANNU: Cronfa Arloesi Bwyd Môr

Mae Cronfa Arloesi Bwyd Môr (SIF) llywodraeth y DU yn gronfa ymchwil a datblygu a lansiwyd ym mis Gorffennaf 2019. Bydd pedwerydd galwad agored am geisiadau yn cael ei lansio'r haf yma. Darganfyddwch sut i wneud cais ar:

https://www.gov.uk/guidance/uk-seafood-innovation-fund

# ARIANNU: Cynllun pwmp gwres – gwybodaeth i osodwyr

Mae grantiau o £5,000 gan Llywodraeth y DU bellach ar gael i berchnogion tai sy'n dewis gosod pympiau gwres carbon isel yn lle bwyleri tanwydd ffosil. Bydd cyllid y cynllun ar gael drwy weithdrefn ymgeisio syml y mae gosodwyr yn ei chynnal ar ran perchnogion eiddo, gyda'r arian ymlaen llaw yn cael ei dynnu oddi ar eu dyfynbris. Mae rhagor o wybodaeth ar gael ar:

https://www.gov.uk/government/news/ditching-costly-gas-and-oil-is-cheaper-thanks-to-heat-pump-scheme

Mae gwybodaeth ar gyfer gosodwyr ar gael gan Ofgem:

https://www.ofgem.gov.uk/environmental-and-social-schemes/boiler-upgrade-scheme-bus/installers

---

Mae mwy o wybodaeth defnyddiol i'w gael o:

# Cyngor Gwynedd – Cefnogaeth i Fusnes

https://www.gwynedd.llyw.cymru/busnescovid19
https://twitter.com/BusnesGwynedd

# Rhwydwaith Busnes Gwynedd

https://www.gwyneddbusnes.net/Hafan
https://twitter.com/gwyneddbusnes

# Busnes Cymru

https://businesswales.gov.wales/coronavirus-advice/cy/
https://twitter.com/_busnescymru

# Busnes@llandrillomenai

https://www.facebook.com/BusnesatLlandrilloMenai/posts
https://twitter.com/busnesLLM

## FSB Cymru

https://twitter.com/FSB_Wales

## Croeso Cymru

https://twitter.com/croesocymrubus

Cofrestru i dderbyn y newyddion diweddaraf
https://bit.ly/3klWPAU

---

Os nad ydych yn dymuno derbyn yr e-byst hyn bellach, os oes gennych gwestiwn, neu angen cyngor:
E-bostiwch busnes@gwynedd.llyw.cymru